

Ysgol Mynydd Bychan

Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cyflwyniad

Ysgrifennwyd y polisi gan gyfeirio at Ddeddf Addysg 1996 a Chod Ymarfer Anghenion Addysgu Arbennig yng Nghymru 2002. Cynigir cyngor ychwanegol i sicrhau cynhwysiad cymdeithasol i bob plentyn yn nogfen y cynulliad "Cefnogaeth a chynhwysiad cymdeithasol 3/99"

Egwyddorion

Mae'r ysgol a'r corff llywodraethu yn cydnabod bod anghenion dysgu ychwanegol yn fater ysgol gyfan.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod anghenion dysgu ychwanegol gan lawer o blant ar ryw adeg yn ystod eu gyrfa ysgol. Gwelir bod angen cefnogi'r disgyblion hyn mewn ffordd effeithiol.

Mae'n bwysig gwrandao ar farn plant ynglŷn â'u haddysg.

Mae rôl bwysig gan rieni i gefnogi addysg eu plant, felly mae'r ysgol yn annog partneriaeth ysgol a chartref.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer yr holl blant. Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, Cwricwlwm Cenedlaethol 2008 a'r Fframwaith Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd yw ein pwynt cychwyn ar gyfer cynllunio sy'n cwrdd ag anghenion penodol unigolion a grwpiau o blant. Wrth gynllunio, bydd athrawon yn gosod sialensiau addas ac yn ymateb i anghenion addysg amrywiol y plant.

Mae'r gofynion hyn yn debyg o godi o ganlyniad i anghenion ychwanegol plentyn. Bydd athrawon yn cymryd ystyriaeth hyn, a byddant yn darparu cefnogaeth i unigolion ac i grwpiau o blant pan fydd angen, ac felly yn galluogi pob plentyn yn cyfranogi'n llawn yn y cwricwlwm a'r gweithgareddau. Bydd angen help ychwanegol ar y plant hyn neu help gwahanol i'r hyn gaiff eu cyfoedion.

Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn nodi bod angen darpariaeth arbennig ar rai disgyblion sydd ag anabledd arbennig. Efallai nad oes anghenion addysgol gan blentyn sy'n dioddef o asthma neu ddiabetes dyweder, ond efallai bod ganddyn nhw hawliau eraill o dan y Ddeddf. Fe fyddwn ni'n asesu pob plentyn pan fydd angen, a byddwn yn rhoi cefnogaeth briodol yn ôl yr angen.

Nod ac Amcanion

Nod ac amcanion y polisi yw:

- creu amgylchedd sy'n cwrdd ag anghenion ychwanegol pob plentyn;
- sicrhau bod anghenion ychwanegol pob plentyn yn cael eu hadnabod, eu hasesu a'u darparu;
- i egluro cyfrifoldeb yr holl bartneriaid o fewn y broses;
- i adnabod rôl a chyfrifoldeb y staff wrth ddarparu anghenion ychwanegol y plentyn;
- i alluogi pob plentyn i gael defnydd llawn o holl elfennau'r cwricwlwm;
- i sicrhau bod y rhieni yn cymryd eu rhan yn cefnogi addysg eu plentyn;
- i sicrhau bod llais gan y plentyn yn y broses.

Prif amcanion

Yn Ysgol Mynydd Bychan, mae'r holl athrawon yn paratoi'n briodol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. Maen nhw'n sicrhau cyfle cyfartal o fewn yr ystafell ddosbarth.

Mae athrawon yn gwahaniaethu gwaith yn ôl anghenion unigol y plant. Ystyrir gwahaniaethu wrth osod tasgau ac wrth ddewis adnoddau a deunyddiau. Caiff y gwahaniaethu ei adlewyrchu yn y cynlluniau gwaith, ac yn y cynllunio byrdymor a chanol dymor.

Bydd Cynllun Addysg Unigol yn cael ei baratoi ar gyfer anghenion penodol: byddant yn cynnwys targedau sy'n gyraeddadwy i blant ag anghenion ychwanegol. Bydd y targedau yn anelu at sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, mathemateg, ymddygiad a sgiliau cymdeithasol.

Bydd y targedau yn cynnwys mewnbwn gan y disgybl. Caiff gyfle i nodi ei gryfderon ynghyd ag unrhyw draffeth. Adolygir y C.A.U o leiaf dwy waith y tymor a gofynnir i'r disgybl i werthuso unrhyw gynnydd neu anhawster sydd dal yn bodoli ac i drafod y ffordd ymalen. Mae copi o'r C.A.U yn cael ei ddanfôn adref i'r rhieni/warcheidwaid a disgwylir iddynt ei lofnodi a'i ddychwelyd i'r ysgol.

Mae cefnogaeth effeithiol o fewn yr ystafell ddosbarth gan yr athro/athrawes a'r cynorthwywyr dysgu dosbarth.

Mae'r ysgol hefyd yn sicrhau bod cyfathrebu'n digwydd rhwng yr ysgol a'r Adran ADY yng Nglantaf.

Darperir proffil electronig ar gyfer pob plentyn sydd ar y gofrestr. Mae'r proffil yn nodi canlyniadau asesiadau o'r Feithrin i Flwyddyn 6, ynghyd â pha ymyriadau sydd wedi eu defnyddio ac ymwelaidau addysgiadol a meddygol. Wrth dracio canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn dros gyfnod hir gellir nodi pa ymyriadau sydd mwyaf effeithiol.

Cynhwysiad

Yn ein hysgol, rydyn ni'n ceisio sicrhau dewis a rhagoriaeth i'r holl blant, beth bynnag fo eu gallu. Mae gennym ddisgwyliaid uchel o'r plant. Rydyn ni'n ceisio gwireddu hyn trwy symud unrhyw beth sy'n rhwystro dysgu a chyfranogiad. Rydyn ni am i'r plant deimlo eu bod yn rhan werthfawr o gymuned yr ysgol. Wrth gyflwyno cwricwlwm addas, rydyn ni'n parchu'r ffaith bod:

- anghenion a gobeithion amrywiol gan blant o ran addysg ac ymddygiad;
- angen strategaethau amrywiol i'w cynorthwyo i ddysgu;
- plant yn caffael, yn cofio ac yn cyfathrebu gwybodaeth ar raddfa amrywiol;
- angen ystod eang o ddulliau a phrofiadau dysgu.

Mae athrawon yn ymateb i anghenion plant wrth:

- ddarparu cefnogaeth i'r plant sydd angen cymorth gyda sgiliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd;
- gynllunio i ddatblygu dealltwriaeth y plant gan ddefnyddio eu holl synhwyrau a phrofiadau amrywiol;
- gynllunio er mwyn cael cyfranogiad llawn plentyn mewn gweithgareddau corfforol ac ymarferol;
- helpu plentyn i reoli ymddygiad ac i gymryd rhan yn yr addysg mewn ffordd effeithiol a diogel;
- helpu unigolion i reoli emosiwn, yn enwedig mewn sefyllfa o drawma neu wasgedd, ac i gymryd rhan lawn mewn addysg.

Anghenion Ychwanegol - Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy

Mae angen darpariaeth arbennig ar blant sydd ag anghenion ychwanegol neu anghenion dysgu. Efallai y bydd rhyw fath o anghenion ychwanegol gan bob plentyn ar ryw adeg o'i yrfa ysgol. Bydd anghenion ychwanegol gan blentyn os:

- yw'n cael llawer mwy o anhawster wrth ddysgu na'i gyfoedion;

- oes ganddo anabledd sy'n ei rhwystro rhan cymryd mantais lawn o'r adnoddau a ddarperir gan yr ysgol i blant o'r un oed.

Mae'r mwyafrif o blant sy'n cychwyn gyda ni eisoes wedi derbyn peth addysg gynnar. Yn aml iawn, mae eu hanghenion eisoes wedi eu hasesu. Caiff pob plentyn ei asesu wrth gychwyn yn yr ysgol, fel y gallwn adeiladu ar eu haddysg flaenorol. Defnyddiwn y wybodaeth hon fel man cychwyn ar gyfer datblygu cwricwlwm addas i bob plentyn. Mae rhai plant sydd yn cychwyn yn y feithrin yn barod wedi dod i sylw therapydd llefaredd, neu arbennigwyr tebyg. Gweithir yn agos gyda Fforwm Cyfnod Sylfaen i sicrhau bod y plentyn yn derbyn yr addysg gorau posib.

Os yw'n hasesiad yn dangos bod problem dysgu gan blentyn, defnyddiwr ystod o strategaethau sy'n gwneud defnydd llawn o holl adnoddau'r ystafell ddosbarth a'r ysgol. Gelwir hyn yn **Weithredu gan yr Ysgol**. Bydd yr athro/athrawes ddosbarth yn cyflwyno mewnbwn sy'n wahanol neu yn ychwanegol i'r hyn y bydd gweddi y dosbarth yn ei dderbyn mewn diwrnod ysgol arferol. Bydd yr athro/athrawes ddosbarth yn hysbysu'r rhieni ac yn derbyn unrhyw wybodaeth ychwanegol ganddynt. Bydd y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dod i'r darlun (os nad yw'n rhan ohono'n barod) pan fydd yr athro/athrawes ddosbarth a'r rhieni yn teimlo y byddai'r plentyn yn manteisio ar gefnogaeth ychwanegol. Bydd y Cydlynnydd ADY yn arwain unrhyw asesiadau pellach o anghenion y plentyn.

Yn y Cynllun Addysg Unigol byddwn yn cofnodi'r strategaethau a ddefnyddir er mwyn cefnogi'r plentyn. Bydd y CAU yn dangos targedau byr dymor a osodir ar gyfer y plentyn, ac yn nodi pa strategaethau sydd angen eu defnyddio. Bydd yn nodi beth fydd y deilliannau dysgu disgwylidig a'r dyddiadau a'r amserlen ar gyfer adolygu'r Cynllun. Fel arfer bydd adolygiad tymhorol yn digwydd.

Os bydd adolygiad y CAU yn darganfod bod angen help gan wasanaethau allanol, byddwn yn cysylltu gyda'r rhieni cyn mynd ati i drefnu cymorth ychwanegol. Fel arfer bydd gwasanaethau allanol yn ymweld â'r plentyn yn yr ysgol. Weithiau bydd hyn yn arwain at gyflwyno strategaethau ychwanegol, a gelwir hyn yn **Weithredu gan yr Ysgol a Mwy**. Bydd gwasanaethau allanol yn darparu gwybodaeth ar gyfer creu CAU newydd ar gyfer y plentyn. Pan fydd hynny'n bosibl, byddwn yn anelu i gyflwyno strategaethau newydd y CAU yn ystafell ddosbarth arferol y plentyn.

Os bydd y plentyn yn parhau i beri pryder sylweddol, gwneir cais am asesiad statudol gan y AALI. Bydd ystod o dystiolaeth ysgrifenedig ynglŷn â'r plentyn yn cefnogi'r cais am asesiad statudol.

Ar ddechrau pob blwyddyn paratwir map gweithredu sydd yn nodi pa blant sydd yn cael eu targedu am y flwyddyn a pha ymyriadau sydd yn cael eu defnyddio, gan bwy a pha mor aml. Ar y map gweithredu nodir yn glir pa gam mae'r disgybl ar y gofrestr ADY. Mae'r map gweithredu yn cynnig trawsolwg llawn o'r holl ymyriadau sydd ar y gweill yn ystod y flwyddyn academaidd.

Staffio Anghenion Ychwanegol

Yn ein hysgol ni mae athrawes ADY yn:

- gofalu bod y polisi yn cael ei weithredu o ddydd i ddydd;
- cydlynu'r ddarpariaeth ac yn gyfrifol am ymateb i anghenion dyddiol y plant;
- cefnogi ac yn cynghori cydweithwyr;
- arolygu'r dystiolaeth ynglŷn â'r holl blant sydd ag anghenion ychwanegol;
- gyswllt gyda rhieni;
- gyswllt gydag asiantaethau allanol ac asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r gwaith;
- monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth anghenion addysgu ychwanegol, ac yn adrodd yn ôl i'r corff llywodraethu;
- rheoli ystod o adnoddau – dynol a materol, er mwyn galluogi'r plant sydd ag anghenion ychwanegol i gael y ddarpariaeth y maen nhw ei angen;
- cyfrannu i ddatblygiad proffesiynol y staff;
- cydweithio gydag athrawon eraill er mwyn cynllunio a chreu CAU ar gyfer disgyblion unigol.

Rôl y corff llywodraethu

Y llywodraethwr sy'n gyfrifol am Anghenion Ychwanegol yw Mrs Ruth Rhydderch.

Mae'r Corff Llywodraethu yn parchu'r Côd Ymarfer wrth gwblhau ei ddyletswyddau tuag at ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol.

Mae'r corff llywodraethu yn gwneud ei orau i sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion ychwanegol. Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o bwysigrwydd darparu ar gyfer pob disgybl. Maent yn ymgynghori gyda'r AALI ac ysgolion eraill, pan fydd hynny'n briodol, ac yn adrodd yn flynyddol i rieni ynglŷn â llwyddiant y polisi ADY. Mae'r corff llywodraethu yn sicrhau bod rhieni yn cael eu hysbysu ynglŷn ag unrhyw benderfyniad gan yr ysgol parthed darpariaeth ADY ar gyfer eu plentyn.

Defnydd o adnoddau

Mae'r Cydlynnydd ADY yn gyfrifol am reoli'r ddarpariaeth o adnoddau ADY o fewn yr ysgol. Yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer plant sydd â datganiad o anghenion ychwanegol.

Mae'r Pennaeth yn hysbysu'r corff llywodraethu o'r defnydd a wneir o gyllideb ar gyfer ADY.

Asesu

Rydyn ni'n pwysleisio bod asesiad buan o anghenion plentyn yn hanfodol. Bydd athro/athrawes ddosbarth yn rhoi gwybod i rieni ar y cyfle cyntaf, er mwyn eu hysbysu ynglŷn ag unrhyw ofidiau, ac er mwyn hybu mewnbwn ac annog cymorth.

Bydd athro/athrawes ddosbarth a'r Athrawes ADY yn asesu ac yn monitro cynnydd y plentyn, yn unol â phatrwm asesu arferol yr ysgol. Mae hyn y broses barhaol a hirdymor. Yn dilyn asesiadau sirol paratoir gwybodaeth ar ffurf goleuadau traffig i hysbysu pob dosbarth o gynnydd neu dirywiad yn lefel cynnydd disgybl. Bydd y gwybodaeth yma yn bwydo i fewn i'r proffil electronig ac mae yn ffordd dda o dracio canlyniadau disgyblion.

Mae'r athrawes ADY yn cydweithio'n agos gyda rhieni ac athrawon er mwyn creu rhaglen addas o gefnogaeth.

Bydd yr asesiad yn adlewyrchu cyfranogiad y plentyn o gwricwlwm cyfan yr ysgol, cyhyd ag y bydd hynny'n bosibl. Gall yr athrawes ADY a'r athro/athrawes ddosbarth dorri'r asesiad i gau llai er mwyn cael dangosyddion manwl a chywir.

Bydd yr AALI yn ceisio cyngor eang cyn gwneud datganiad ffurfiol. Anghenion y plentyn sydd uchaf yn hyn o beth.

Wrth greu CAU defnyddir yr asesiadau canlynol:

- Prawf Darllen Glannau Menai
- Prawf Sillafu Glannau Menai
- Prawf Sillafu Vernon
- STARS Cymraeg
- Profion Cenedlaethol Darllen Cymraeg a Saesneg
- Rhesymu Dieiriol SGYA
- Mathemateg SGYA
- SAIL
- Nippers
-

- Rapid Readers
- Rainbow Readers
- Dyfal Donc/ Catch up
- Cychwyn Eto
- Cued Spelling
- Precision Spelling
- Speech Links

Mynediad i'r Cwricwlwm

Mae gan bob plentyn hawl i gwricwlwm eang a chytbwys, sydd wedi ei wahaniaethu er mwyn eu galluogi:

- i ddeall perthnasedd a bwriad y gweithgareddau dysgu;
- i gyrraedd lefelau deall ac i wneud cynnydd er mwyn i blentyn i brofi llwyddiant.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau er mwyn cwrdd ag anghenion ychwanegol plant. Mae amcanion dysgu eglur i'r gwersi. Mae'r gwaith wedi ei wahaniaethu yn addas. Defnyddir yr asesiadau er mwyn arwain cam nesaf y dysgu.

Bydd y CAU yn dilyn dull y camau bychain. Maent yn rhan bwysig o'n darpariaeth o fewn yr ysgol. Wrth greu lefelau cyrhaeddiad a thargedau sy'n cynyddu'n raddol, gam wrth gam, rydyn ni'n sicrhau bod plant yn profi llwyddiant. Mae CAU gan bob plentyn sydd ar Weithredu gan yr Ysgol, a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Wrth gefnogi plant rydyn ni'n gydnabod hefyd bod ganddyn nhw hawl i rannu'r un profiadau dysgu a'u cyd-ddisgyblion. Cyhyd ag y bo hynny'n bosibl, ni fyddwn yn tynnu plentyn o'r ystafell ddosbarth. Ond, ar brydiau, er mwyn hyrwyddo'r dysgu, rydyn ni'n gofyn i blant weithio mewn grwpiau bychain, neu mewn sefyllfa un-i-un y tu allan i'r ystafell ddosbarth gyda'r Athrawes ADY.

Partneriaeth gyda rhieni

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda rhieni wrth gefnogi plant sydd ag anghenion ychwnaegol. Rydyn ni'n annog partneriaeth agos wrth gynnal dialog cyson gyda rhieni. Mae'r cynllun cartref-ysgol yn bwysig yn hyn o beth. Mae gan rieni lawer i'w gyfrannu wrth gefnogi plant sydd ag anghenion ychwnaegol.

Gweinyddir polisi drws agored o fewn yr adran ADY. Ar ddechrau pob blwyddyn gwahoddir pob rhiant i'r ysgol i gwrdd â'r athraws ADY ac i drafod eu pryderon neu gofidion. Sicrheir bod rhieni yn ymwybodol o'r ymyriadau mae eu plant yn dilyn drwy gyfarfodydd neu lythyr. Mae rhieni sydd â phlant ag anhawsterau dysgu cymhedrol neu dwys ym medru teimlo yn unig ac ar goll. Ym Mynydd Bychan sirheir bod rhieni yn cael digon o gefnogaeth a gwybodaeth er mwyn cyd weithio er lles y plentyn.

Rydyn ni'n cynnal cyfarfodydd cyson bob tymor er mwyn rhannu gwybodaeth gyda rhieni. Rydyn ni'n hysbysu rhieni ynglŷn ag unrhyw ymyrraeth allanol, ac rydyn ni'n eu gwahodd i rannu mewn penderfyniadau wrth ddarparu gwybodaeth eglur iddyn nhw.

Cyfranogiad disgyblion

Yn Ysgol Mynydd Bychan, rydyn ni'n annog plant i gymryd cyfrifoldeb ac i wneud penderfyniadau. Mae hyn yn rhan o ddiwylliant yr ysgol ar draws yr holl oedrannau. Mae gwaith y Cyfnod Sylfaen yn cydnabod pa mor bwysig yw hi fod plant yn datblygu yn gymdeithasol yn ogystal ag yn addysgiadol.

Mae'r plant yn cael bod yn rhan o'r broses o osod CAU, pan fydd hynny'n addas. Caiff plant eu hannog i wneud sylwadau ynglŷn â'r ffordd y maen nhw'n cwrdd â'r targedau sydd o fewn eu CAU. Rydyn ni'n hoffi cydnabod llwyddiant yn y maes hwn, fel yng ngweddill bywyd yr ysgol.

Hyfforddi staff

Rydyn ni'n hyfforddi ein holl staff er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cwrdd ag anghenion pob disgybl o fewn yr ysgol.

Rydyn ni'n annog staff i fynychu cyrsiau HMS perthnasol a ddarperir gan yr AALI ynghyd a diwrnodau HMS mewnol yn yr ysgol.

Trefnir diwrnodau HMS ar gyfer yr ysgol gyfan er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o ddatblygiadau newydd parthed anghenion ychwanegol.

Monitro ac adolygu

Mae'r Cydlynnydd ADY yn monitro llwybr disgyblion o fewn system ADY yr ysgol. Mae'n darparu crynodebau cyson i'r staff a'r llywodraethwyr parthed effaith y polisi ADY ar weddill yr ysgol.

Mae'r Pennaeth, y Cydlynnydd ADY a'r corff llywodraethu yn adolygu'r polisi yn flynyddol ac yn ystyried unrhyw newidiadau posibl ddaw i'r wyneb o ganlyniad i'r adolygiad. Bydd y Corff Llywodraethu yn derbyn gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw benderfyniadau.

Arwyddwyd:

Dyddiad: